Taflen ffeithiau
4

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Hawliau dinasyddion yr UE yng Nghymru

# Dinasyddion yr UE a'u Hawl i Ofal Iechyd am Ddim gan y GIG

Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnwys crynodeb byr o hawliau dinasyddion yr UE i gael gofal iechyd gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Yn y daflen ffeithiau hon, mae 'dinasyddion yr UE' yn cynnwys dinasyddion aelod-wladwriaethau'r UE, yn ogystal â dinasyddion gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein), a dinasyddion y Swistir.

Yn ogystal, mae'r daflen ffeithiau hon yn ymdrin â hawliau aelodau teuluol nad ydynt yn ddinasyddion yr UE eu hunain, lle mae eu hawl i fyw yn y DU yn deillio o'u perthynas â dinesydd yr UE neu ddinesydd Prydeinig sydd wedi arfer hawliau rhyddid i symud fel gweithiwr, person hunangyflogedig, person hunangynhaliol neu fyfyriwr mewn gwlad yn yr AEE yn union cyn dychwelyd i'r DU[1].

Yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd mae hawliau dinasyddion yr UE ledled y DU wedi newid mewn nifer o ffyrdd.

Dylai dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teulu a oedd yn byw yn y DU ar 31 Rhagfyr 2020, ac sy'n dymuno aros yng Nghymru, fod wedi gwneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS), naill ai am Statws Preswylydd Sefydlog (caniatâd amhenodol i aros) neu Statws Preswylydd Cyn-Sefydlog (caniatâd cyfyngedig i aros am 5 mlynedd). Nid oedd rhaid i ddinasyddion Iwerddon a phobl â chaniatâd amhenodol i aros wneud cais. Gall dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teulu na wnaethant gais i'r EUSS, neu y mae eu statws preswylydd cyn-sefydlog wedi dod i ben, wneud cais o hyd os ydynt yn gymwys ac yn gallu dangos 'sail resymol' dros beidio â bod wedi gwneud cais erbyn y terfyn amser neu ers i'r terfyn amser basio.

Ni chaiff dinasyddion yr UE a gyrhaeddodd y DU am y tro cyntaf ar, neu ar ôl, 1 Ionawr 2021 gyflwyno cais am Statws Preswylydd Sefydlog na Statws Preswylydd Cyn-sefydlog. Maent yn cyrraedd fel 'Ymwelwyr Tymor Byr'. Os dymunant aros am fwy nag ymweliad byr o hyd at chwe mis, rhaid iddynt gyflwyno cais am Fisa Tymor Hir (er enghraifft, i astudio, neu i weithio, neu i ymuno ag aelod o'u teulu). Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Fisâu Tymor Hir yn: Browse: Work in the UK – GOV.UK (www.gov.uk).

Yn achos aelodau o deulu dinesydd yr UE nad ydynt yn dod o'r UE, dim ond os oes ganddynt drwydded deulu'r EUSS eisoes y gallant ddod i'r DU bellach. Nid yw trwyddedau teulu AEE a chardiau preswyl biometrig y DU bellach yn ddilys yn y DU. Bellach, bydd eVisa gan ddinasyddion sydd â cherdyn preswylio biometrig (BRC) ac sydd wedi cael statws o dan Gynllun Preswylio'n Sefydlog i'r UE.

Cofnod ar-lein o statws mewnfudo rhywun yw eVisa ynghyd â chofnod o amodau eu caniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi. Mae hefyd yn caniatáu i unigolyn rannu ei statws mewnfudo â thrydydd partïon pan fo angen.

---

1 Gall 'aelodau teuluol' gynnwys eich priod neu eich partner sifil, eich plant, eich wyrion/wyresau a'ch gorwyrion/gorwyresau dan 21 oed, eich plant dibynnol dros 21 oed, eich rhieni, eich teidiau a'ch neiniau, eich hen deidiau a hen neiniau dibynnol, a rhai partneriaid dibriod a pherthnasau dibynnol eraill (pan fo Swyddfa Gartref y DU wedi rhoi tystysgrif cofrestru 'aelod o'r teulu estynedig').

## Dinasyddion yr UE sydd â Statws Preswylydd Sefydlog neu Statws Preswylydd Cyn-sefydlog

Mae gan bob dinesydd UE ac aelodau o'u teulu sydd â Statws Preswylydd Sefydlog neu Statws Preswylydd Cyn-sefydlog yr hawl i gael gofal iechyd drwy'r GIG yng Nghymru, boed mewn argyfwng ai peidio. Mae hyn yn cynnwys: gofal iechyd sylfaenol am ddim (yr hawl i gofrestru â meddyg teulu), a gofal iechyd eilaidd (triniaeth mewn ysbyty) am ddim. Mae ganddynt hawl gyfartal i gael mynediad at ofal iechyd am ddim ar yr un sail â dinasyddion y DU sy'n byw yng Nghymru, yn ogystal â hawl i gael cyfieithydd, pe bai angen un, i gyfathrebu gyda staff y GIG, a/neu i ddeall y gofal meddygol a chydsynio iddo.

Bydd dinasyddion yr UE sydd wedi cyflwyno cais ac sy'n aros am y canlyniad yn cael Tystysgrif Ymgeisio y gellir ei defnyddio i brofi bod ganddynt statws gwarchodedig hyd nes y ceir penderfyniad ynglŷn â'u cais.

## Dinasyddion yr UE a oedd yn byw yn y DU ar 31 Rhagfyr 2020 nad ydynt wedi cyflwyno cais i'r EUSS

Anogir cleifion i gyflwyno cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE os nad ydynt wedi gwneud hynny'n barod. Os na all y claf gyflwyno tystiolaeth ei fod yn breswylydd arferol, ac os nad oes unrhyw eithriad arall yn berthnasol, yna gellir codi tâl arno.

## Dinasyddion yr UE a gyrhaeddodd am y tro cyntaf ar, neu ar ôl, 1 Ionawr 2021

Cynllun seiliedig ar breswyliaeth yw'r GIG, a rhaid i bobl fod yn "breswylwyr arferol" yng Nghymru er mwyn cael mynediad digyfyngiad, rhad ac am ddim, at holl wasanaethau gofal iechyd y GIG, ar yr un sail â dinasyddion y DU sy'n byw yma. Golyga hyn fod yn rhaid iddynt fod â chaniatâd cyfreithiol i fyw yn y DU, a'u bod yn bwriadu aros yma. Fel arfer, caiff pobl heb ganiatâd amhenodol i aros yn y DU eu hystyried yn ymwelwyr tramor.

### Ymwelwyr Tymor Byr (ymweliadau sy'n para llai na 6 mis)

Mae rhai agweddau ar ofal iechyd y GIG yn cael eu darparu'n rhad ac am ddim i bawb. Mae'r rhain yn cynnwys gofal sylfaenol gan feddyg teulu, triniaeth frys mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a thriniaeth ar gyfer clefydau heintus (fel COVID-19). Mae trefniadau gofal iechyd cilyddol rhwng y DU a'r UE yn golygu bod Cardiau Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn parhau i fod yn ddilys; rhaid i ddinasyddion yr UE sy'n cyrraedd Cymru fel Ymwelwyr Tymor Byr fod wedi gwneud cais am gerdyn EHIC (www.nhs.uk/using-the-nhs/healthcare-abroad/apply-for-a-free-uk-global-health-insurance-card-ghic/) yn eu gwlad eu hunain cyn teithio i Gymru. Gall dinasyddion yr UE ddefnyddio'u cardiau EHIC i gael triniaeth feddygol angenrheidiol os cododd yr angen amdani yn ystod eu hymweliad â Chymru, a hefyd i gael triniaeth angenrheidiol ar gyfer cyflwr cronig neu gyflwr a oedd yn bod o'r blaen, fel dialysis arennol – a hynny'n rhad ac am ddim.

### Ymwelwyr Byrdymor o Wladwriaethau EFTA

O 1 Ionawr 2021, gall dinasyddion Norwyaidd sy'n byw yn Norwy gael mynediad at ofal iechyd meddygol angenrheidiol pan fyddant yn ymweld â'r DU, gan ddefnyddio pasbort Norwyaidd dilys.

O 1 Ionawr 2021, efallai y bydd rhaid i'r rhan fwyaf o ymwelwyr o Wlad yr Iâ a Liechtenstein dalu am ofal iechyd y GIG (oni bai bod esemptiad). Codir tâl o 100% o gyfradd genedlaethol y GIG am unrhyw driniaeth.

O 1 Ionawr 2021, bydd trefniadau gofal iechyd cyfatebol rhwng y DU a'r Swistir yn talu am ofal iechyd a ddaw'n angenrheidiol i wladolion o'r Swistir pan fyddant yn aros dros dro yn y DU, gan ddefnyddio EHIC a roddwyd gan y Wladwriaeth.

### Deiliaid Fisa Tymor Hir

Rhaid i ddinasyddion yr UE ac aelodau o'u teulu sy'n ymweld am fwy na 6 mis ac sy'n cyrraedd gyda Fisa Tymor Hir dalu'r 'gordal iechyd mewnfudo' wrth wneud cais am eu fisa. Ar ôl iddynt dalu'r gordal hwn, bydd modd iddynt gael mynediad am ddim at ofal iechyd sylfaenol ac eilaidd y GIG ar yr un sail â phreswylwyr y DU. Rhaid i bobl sy'n trefnu yswiriant meddygol preifat dalu'r gordal hefyd.

Er mwyn cael yr ystod lawn o wasanaethau a ddarperir gan y GIG, dylai dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru gofrestru gyda Meddyg Teulu. Gall ymwelwyr tymor byr â Chymru hefyd gofrestru dros dro gyda meddyg teulu. Mater i bractisau meddygon teulu yw penderfynu a fyddant yn cofrestru cleifion ai peidio. Mae gan bractisau meddygon teulu hefyd yr hawl i dderbyn ymwelwyr tymor byr ar sail breifat yn unig, lle bydd yn rhaid i'r claf dalu ffi.

## Newid hyd yr estyniad statws cyn-sefydlog i 5 mlynedd

Bydd y Swyddfa Gartref yn cynyddu hyd estyniadau statws cyn-sefydlog o 2 i 5 mlynedd. Ers Mai 2024, mae'r Swyddfa Gartref wedi cynyddu hyd estyniadau statws cyn-sefydlog o 2 i 5 mlynedd.

Ni fydd hyn yn effeithio ar unrhyw un sydd eisoes â statws preswylydd sefydlog neu sydd wedi dod yn ddinesydd Prydeinig yn y cyfamser.

### Sut fydd hyn yn gweithio i ddeiliaid statws cyn-sefydlog?

- Nid oes angen i ddeiliaid statws preswylydd cyn-sefydlog gymryd unrhyw gamau o ganlyniad i'r newid hwn.
- Bydd yr estyniad yn cael ei adlewyrchu yn eu statws digidol a bydd y Swyddfa Gartref yn cysylltu â nhw'n uniongyrchol i roi gwybod iddynt fod hyn wedi'i wneud. Nid oes angen iddynt gysylltu â'r Swyddfa Gartref.
- Rydym yn parhau i annog dinasyddion yr AEE ac aelodau o'u teuluoedd i wneud cais am statws preswylydd sefydlog o dan yr EUSS cyn gynted ag y byddant yn gymwys, i gael cadarnhad sicr o'u hawl i aros yn barhaol yn y DU. Gallwch wneud cais i newid i statws preswylydd sefydlog yn rhad ac am ddim ar www.gov.uk/settled-status-eu-citizens-families/applying-for-settled-status. Mae amrywiaeth eang o gymorth a chefnogaeth ar gael i ymgeiswyr sydd ei hangen.

## Uwchraddio statws unigolion i Statws Preswylydd Sefydlog yn Awtomatig

O 2025, bydd y Swyddfa Gartref yn dechrau uwchraddio sefyllfa unigolion â statws preswylydd cyn-sefydlog cymwys yn awtomatig i statws preswylydd sefydlog heb iddynt orfod gwneud cais am hynny. Caiff data cyrff y llywodraeth fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a CThEF eu defnyddio i asesu pwy sy'n gymwys. Os na all y Swyddfa Gartref uwchraddio statws unigolyn yn awtomatig, bydd yn rhoi gwybod iddo, gan ofyn iddo wneud cais yn cynnwys tystiolaeth ei fod wedi bod yn byw yn y DU am bum mlynedd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y rhai sydd â statws preswylydd cyn-sefydlog sydd wedi byw yn y DU yn barhaus am o leiaf bum mlynedd yn dal i ddewis gwneud cais am statws preswylydd sefydlog ymlaen llaw.

## Dolenni Defnyddiol

**Rydw i angen help gyda Statws Preswylydd Sefydlog – Setlo** www.settled.org.uk/en/help/

**Mae hawliau dinasydion wedi newid | the3million** www.the3million.org.uk/rights-have-changed

**Hafan – Yr Awdurdod Monitro Annibynnol ar gyfer Cytundebau Hawliau Dinasyddion**
www.ima-citizensrights.org.uk

**Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE: gwybodaeth i ymgeiswyr hwyr – GOV.UK**
www.gov.uk/government/publications/eu-settlement-scheme-information-for-late-applicants/eu-settlement-scheme-information-for-late-applicants

**Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE: canllawiau i weithwyr achosion – GOV.UK**
www.gov.uk/government/publications/eu-settlement-scheme-caseworker-guidance

**Dinasyddion yr UE – rydym ni eisiau i chi aros yng Nghymru – LLYW.CYMRU**
www.llyw.cymru/dinasyddion-ue-yn-nghymru

**System fewnfudo sy'n seiliedig ar bwyntiau'r DU: gwybodaeth i ddinasyddion yr UE – GOV.UK**
www.gov.uk/guidance/the-uks-points-based-immigration-system-information-for-eu-citizens

**Mewnfudo – Cyngor ar Bopeth** www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/mewnfudo/

**Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol – LLYW.CYMRU**
www.llyw.cymru/ue-cyfnod-pontio-brexit

**Fisâu a chanllawiau gweithredol mewnfudo: gwybodaeth fanwl – GOV.UK**
www.gov.uk/topic/immigration-operational-guidance

## Cwestiynau Cyffredin am Ddinasyddion yr UE a Mynediad at Ofal Iechyd

### Mae'r feddygfa'n gofyn am dystiolaeth o'm Statws Preswylydd Sefydlog

Gallwch ddangos prawf o'ch Statws Preswylydd Sefydlog drwy ofyn am god rhannu – Gweld a phrofi eich statws mewnfudo – GOV.UK (www.gov.uk/view-prove-immigration-status)

### Mae'r feddygfa'n gwrthod gadael imi gofrestru

Os ydych yn cael trafferth cael eich derbyn gan feddygfa, gall eich Bwrdd Iechyd Lleol eich cofrestru ag un.

### A allaf gael help mewn argyfwng neu ddamwain?

Os cewch chi neu aelod o'ch teulu ddamwain neu salwch difrifol sydyn, dylech fynd i'r ysbyty agosaf sydd ag adran Damweiniau ac Achosion Brys sydd am ddim i bawb.

Os yw'n argyfwng difrifol iawn, ffoniwch **999** a gofyn am ambiwlans i fynd â chi i ysbyty. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhad ac am ddim a dim ond mewn argyfwng y dylid ei ddefnyddio. Os ydych yn gallu, fe allech fynd eich hun i'r adran **Damweiniau ac Achosion Brys**.

Peidiwch â defnyddio adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ar gyfer mân broblemau meddygol.

Os oes angen help neu gyngor meddygol arnoch ar frys ond nad yw'ch bywyd mewn perygl', ffoniwch **GIG 111**.

### A oes rhaid imi dalu am driniaeth feddygol?

Mae gan bob dinesydd UE ac aelodau o'u teulu sydd â Statws Preswylydd Sefydlog neu Statws Preswylydd Cyn-sefydlog yr hawl i gael gofal iechyd drwy'r GIG yng Nghymru, boed mewn argyfwng ai peidio. Mae hyn yn cynnwys: gofal iechyd sylfaenol am ddim (yr hawl i gofrestru gyda meddyg teulu), a gofal iechyd eilaidd am ddim (triniaeth mewn ysbyty).

### A allaf gael brechlyn coronafeirws os nad oes gen i rif GIG neu os nad wyf wedi cofrestru â meddygfa?

Rydych yn gymwys am frechlyn COVID-19 am ddim drwy'r GIG. Dyma sut i archebu apwyntiad am frechiad coronafeirws: www.llyw.cymru/cael-prawf-coronafeirws-covid-19

Bydd y brechlyn yn cael ei gynnig ac ar gael i bawb sy'n byw yn y DU, a hynny'n rhad ac am ddim. **Nid oes angen ichi fod wedi cofrestru â meddygfa na bod â rhif GIG i gael y brechlyn.**

### A allaf gofrestru â deintyddfa a chael triniaeth am ddim?

Nid oes angen ichi gofrestru â deintyddfa ond dim ond mewn deintyddfa sy'n derbyn cleifion GIG y bydd triniaeth ddeintyddol am ddim ar gael. Gallwch ddod o hyd i ddeintyddfa GIG leol drwy chwilio yn eich ardal leol ar wefan Galw Iechyd Cymru (www.gig.cymru/). Os oes angen triniaeth ddeintyddol frys arnoch, gallwch gysylltu â'r llinell gymorth ar gyfer gwasanaethau deintyddol drwy (www.111.wales.nhs.uk/localservices/dentistinformation/?locale=cy&term=A).

### Mae angen cymorth arnaf ar gyfer fy iechyd meddwl

Mae'n bosib' y gall eich meddyg teulu ddod o hyd i gymorth arbenigol ichi. Os hoffech siarad â rhywun am y problemau hyn, mae'r Samariaid (www.samaritans.org/) yn cynnig gwasanaeth ffôn cyfrinachol am ddim, 24 awr y dydd, bob dydd drwy'r flwyddyn. Gallwch eu ffonio ar **116 123**.

Gall plant a phobl ifanc hefyd ddioddef problemau iechyd meddwl neu les. Mae gan ysgolion uwchradd wasanaethau cwnsela y gall disgyblion eu defnyddio os ydyn nhw'n teimlo'n bryderus neu'n ansicr.

### Rwy'n feichiog, a allaf gael cymorth gan y GIG?

Dylech ddweud wrth eich meddyg teulu eich bod yn feichiog er mwyn cael cymorth gan fydwraig GIG yn ystod eich beichiogrwydd.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51440, ISBN digidol 978-1-83715-322-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg